Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Deall graddau

## Canllaw i gomisiynwyr

OGL © Hawlfraint y Goron 2025
WG51923
ISBN digidol 978-1-83715-500-2

# Cyflwyniad

Mae cyflwyno graddau gofal yng Nghymru yn dynodi cam pwysig ymlaen o ran y ffordd rydym yn deall ac yn comisiynu gwasanaethau gofal.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y gallwch ddefnyddio graddau i wella eich arferion comisiynu.

Bydd pob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru a gaiff ei arolygu o 1 Ebrill 2025 yn cael graddau.

Bydd yn ofyniad cyfreithiol i'r rhan fwyaf o wasanaethau arddangos eu graddau.

Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaethau canlynol arddangos eu graddau:

- Gwasanaethau ar gyfer pobl dan 18 oed.
- Gwasanaethau bach â 4 preswylydd neu lai.
- Gwasanaethau cymorth cartref lle:
  - Nad yw lleoliad y gwasanaeth yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd.
  - Darperir y gwasanaeth o gartref preifat unigolyn.

## Pam fod graddau o bwys

Dylech ystyried graddau fel ffenestr i ansawdd gwasanaethau. Maent yn darparu'r canlynol:

- Tystiolaeth glir o berfformiad y gwasanaeth.
- Data y gellir eu cymharu ar draws darparwyr.
- Rhybudd cynnar o broblemau posibl.
- Cydnabyddiaeth o ragoriaeth.
- Adnoddau ar gyfer gwella.

**Bydd yn cymryd tua dwy flynedd (o 1 Ebrill 2025) i gyhoeddi graddau ar gyfer pob gwasanaeth yng Nghymru.**



# Deall y pedair thema


Bydd un o'r graddau canlynol yn cael ei dyfarnu i wasanaethau:

- Rhagorol
- Da
- Rhaid gwella
- Rhaid gwella'n sylweddol

Bydd y rhain yn cael eu cymhwyso at bedair thema:

Mae'r thema hon yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cefnogi pobl i fyw eu bywydau i'r eithaf. A yw'r bobl yn hapus? A oes ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd? A oes ganddynt gysylltiad â'u cymunedau? Mae'r thema hon yn eich helpu i ddeall gwir effaith gofal ar fywydau'r bobl.

Mae'r thema hon yn archwilio hanfodion y broses o ddarparu gwasanaeth. Mae'n dangos a yw'r gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r thema hon yn hanfodol er mwyn deall a yw gwasanaethau yn gallu diwallu anghenion cymhleth a chynnal ansawdd cyson.




Mae'r thema hon yn dweud wrthych am y lleoliad ffisegol lle caiff gofal ei ddarparu. Y tu hwnt i ddiogelwch a phrosesau cynnal a chadw sylfaenol, mae'n dangos a yw'r lle yn cefnogi annibyniaeth ac urddas. Mae hyn yn helpu i lywio penderfyniadau ynghylch addasrwydd lleoliad. Dim ond ar gyfer cartrefi gofal y mae'r thema hon yn gymwys.

Mae'r thema hon yn dweud wrthych am y trefniadau llywodraethu a goruchwylio sylfaenol sy'n ofynnol i sicrhau gofal da.

# Defnyddio graddau yn ymarferol

## Ar gyfer gwaith cynllunio strategol:

Dylech ystyried graddau fel rhywbeth sy'n cyfrannu at eich gwybodaeth am y farchnad. Maent yn eich helpu i wneud y canlynol:

- Targedu cymorth i wella.
- Cynllunio datblygiad y farchnad.
- Rheoli risgiau mewn ffordd ragweithiol.
- Olrhain tueddiadau ansawdd.
- Nodi materion systemig.
- Targedu ymyriadau yn effeithiol.
- Cefnogi sefydlogrwydd yn y farchnad.

## Ar gyfer rheoli contractau::

Gallwch ddefnyddio graddau i wneud y canlynol:

- Monitro perfformiad darparwr.
- Llywio sgyrsiau am welliannau.
- Cefnogi penderfyniadau am leoliadau.

## Gwneud penderfyniadau da:

Cofiwch:

- Mae graddau yn rhoi cipolwg o leoliad ar adeg benodol.
- Mae cyd-destun yn bwysig – edrychwch y tu hwnt i'r rhifau.
- Ystyriwch y pedair thema gyda'i gilydd.
- Defnyddiwch y graddau ochr yn ochr â gwybodaeth arall.

**Gallwch ddarllen mwy am sgoriau ar wefan AGC**

